**Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**

**25 Tachwedd 2010**

**Teitl: Papur tystiolaeth - yr Adran Materion Gwledig**
Dyraniadau'r Gyllideb **Ddrafft ar gyfer 2011-12 i 2013-14**

## Prif Grwp Gwariant (MEG) Materion Gwledig

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor ynghylch cynlluniau gwario'r Adran Materion Gwledig fel yr amlinellir yn y gyllideb ddrafft y bwriedir ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd 2010.

2. Mae Atodiad A yn nodi manylion y Gyllideb Ddrafft, yn ôl Cam Gweithredu ac yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb mewn perthynas â phob Cam Gweithredu.

## Cefndir a Chrynodeb

3. Gwnaed y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol tynn. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft fel a ganlyn:

| | **Llinell sylfaen 2010-11 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2011-12 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2012-13 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2013-14 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 126,560 | 123,722 | 121,818 | 122,338 |
| Cyfalaf | 16,729 | 12,834 | 12,402 | 11,556 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **143,289** | **136,556** | **134,220** | **133,894** |

4. Daw cyfanswm y gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 i £136.6m, o gymharu â £143.3m yn 2010-11. Mae'r cyllid refeniw wedi gostwng o £126.6m i £123.7m (-2.3%). Mae'r cyllid cyfalaf wedi gostwng o £16.7m i £12.8m (-23.4%) Mae'r gostyngiadau hyn yn deillio o effaith penderfyniadau ariannol ar lefel y DU.

5. Er gwaethaf y setliad cyllidebol anodd, dim ond 1.9% yn is na'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 yw'r llinell sylfaen ar gyfer 2013-14, ac mae ffigur y llinell sylfaen refeniw ar gyfer 2013-14 0.4% yn uwch nag ar gyfer 2012-13.

6. Bydd y Gyllideb Ddrafft yn ei gwneud yn bosibl bwrw ymlaen â'r holl weithgarwch allweddol o fewn MEG Materion Gwledig, gan gynnwys gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig, gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl yn effeithiol, y rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg a'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid.

**Trosolwg o'r Gyllideb**

7. Blaenoriaeth yr Adran Materion Gwledig yw cyflawni ei hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' ac rwy'n hyderus y bydd y cynigion a nodir yn y gyllideb ddrafft yn ei gwneud yn bosibl inni wneud hynny.

8. Wrth fynd ati i bennu'r gyllideb ar gyfer y 3 blynedd nesaf, rwyf wedi ystyried fy nghyllideb fesul llinell a dyrannu cyllid ar sail y blaenoriaethau allweddol y mae angen eu dilyn.

**Y Cynllun Datblygu Gwledig**

9. Un o'r blaenoriaethau allweddol yw gweithredu Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013, sy'n rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Cynllun yn werth £790m dros y cyfnod 7 mlynedd, y mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gyfrannu £595m ohono. O 2012, caiff y pedwar cynllun amaeth-amgylcheddol presennol o fewn y Cynllun mwy eu disodli gan gynllun newydd i reoli tir yn gynaliadwy, sef *Glastir*, i weithredu ym meysydd newid hinsawdd, rheoli carbon/dŵr/pridd/cynefin a bioamrywiaeth. Mae dwy elfen iddo - elfen Cymru Gyfan ac elfen wedi'i thargedu. Mae elfen Cymru Gyfan yn darparu cynllun rheoli tir lefel mynediad a fydd yn caniatáu i niferoedd llawer mwy o ffermwyr ac ardaloedd llawer mwy o ffermdir fod yn rhan o'r trefniant rheoli tir. Mae'r elfen wedi'i thargedu yn ca nolbwyntio ar dair prif elfen: rheoli priddoedd a charbon pridd, rheoli dwr a rheoli bioamrywiaeth.

10. Os nad ydym yn dyrannu digon o arian domestig i'r Cynllun, mae **perygl gwirioneddol na chaiff y cyllid a addawyd gan yr UE ei roi**. Rwyf felly wedi diogelu llinellau cyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig yn sicr iawn. Mae cyfanswm y cyllid domestig ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig (refeniw a chyfalaf) yn gostwng o £77m yn 2010-11 i ffigur cymharol wastad o £73 i £74m dros gyfnod 3 blynedd y gyllideb. Daw'r gostyngiad ar gyfer 2011-12 yn sgil y gostyngiad cyffredinol mewn cyllidebau cyfalaf, ac mae modd ei reoli - gweler paragraff 28 isod.

**Cynllun y Taliad Sengl**

11. Un arall o'r blaenoriaethau allweddol yw gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl yn effeithiol. Yr UE sy'n cyllido'r taliadau 100%, gan ddod i gyfanswm o ryw £263m yn 2011/12, ond y perygl i Lywodraeth y Cynulliad yw cosb ariannol gan Ewrop os na fydd gyda ni'r systemau gweinyddu priodol yn eu lle. I egluro hyn, yn ddiweddar mae Llys Archwilwyr Ewrop wedi cwblhau gwaith ar Gynllun y Taliad Sengl ar gyfer 2008. Y sefyllfa waethaf bosibl i Gymru fyddai cosb ariannol o ryw €18m y flwyddyn am 3 blynedd y byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ei dalu. I gymharu, mae Lloegr yn wynebu cosb ariannol o fwy na €100m y flwyddyn am 2 flynedd, a Gogledd Iwerddon fwy na €60m.

12. Mae record gan yr Adran Materion Gwledig o herio cosbau ariannol yn llwyddiannus a'u gostwng yn sylweddol. Yn dilyn archwiliad SPS yn 2006, rydym wedi llwyddo i ostwng cosbau ariannol o £4.2m posibl i £0.5m drwy brosesau cymodi.

13. Mae cosb ariannol, felly, yn parhau'n berygl go iawn, ac o'r herwydd rwy'n diogelu'r gyllideb ar gyfer buddsoddi mewn systemau TG, sy'n rhan o Linell Wariant Refeniw Gweinyddu'r Taliad Sengl yn y Gyllideb.

**TB mewn Gwartheg**

14. Rwyf wedi ymrwymo i'r **rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg**. Ym Medi 2010, cyhoeddais ymgynghoriad ar Orchymyn drafft newydd i weithredu strategaeth rheoli moch daear mewn ardal benodol yn y Gorllewin.

15. Mae cyllid o ryw £10m y flwyddyn wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen i Ddileu TB. Mae hyn yn fwy na'r gwariant a welwyd yn ystod unrhyw flwyddyn hyd yn hyn (y ffigur gwariant yn 2009/10 oedd rhyw £4m).

16. Mae **cyllideb iawndal TB** yn parhau ar £11.7m. Mae'r gyllideb hon wedi parhau yr un fath ers rhai blynyddoedd, ac mae'n annigonol i fodloni gofynion y gwariant a ragwelir eleni ac yn ystod y 3 blynedd nesaf - sy'n cynyddu o £18m yn 2011-12 i £24m yn 2013-14.

17. Y ffigur gwariant gwirioneddol ar gyfer 2009-10 oedd £18.3m. Ar hyn o bryd, rhagwelir mai'r ffigur gwariant ar gyfer 2010-11 fydd £15m. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud mai tuag i lawr y mae'r ffigur yn mynd. I'r graddau y gallaf ariannu'r taliadau sy'n fwy na lefel y gyllideb o'm MEG, ac yn dal i fod ag arian i dalu am fy holl flaenoriaethau eraill, byddaf yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, rwyf wedi cael addewid gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ei bod yn barod i ystyried defnyddio cronfeydd 2011-12 os oes angen er mwyn delio â'r pwysau ar y gyllideb iawndal TB.

**Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid**

18. Rwyf hefyd yn diogelu'r llinell gyllidebol ar gyfer y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid, er mwyn denu gwaed newydd i'r diwydiant. Y gyllideb ar gyfer hyn yw £1.7m y flwyddyn. Mynegwyd diddordeb mawr yn y Cynllun, ac mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'i hymrwymo'n gyfangwbl. Mae hon yn fenter bwysig a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r ffaith bod y boblogaeth ffermio yn heneiddio - oedran cyfartalog ffermwyr yw rhyw 60 oed erbyn hyn.

**Gostyngiadau yn y gyllideb**

19. Mae crynodeb o'r prif ostyngiadau yn y gyllideb rhwng 2010-11 a 2011-12 wedi'i nodi isod.

| LLINELL WARIANT Y GYLLIDEB | **Cyllideb 2010-11 (£m)** | **Gostyngiad (£m)** | **Cyllideb Ddrafft 2011-12 (£m)** |
|---|---:|---:|---:|
| Dileu TB (gweler uchod) | 11.900 | (1.520) | 10.380 |
| Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes | 0.900 | (0.900) | 0.000 |
| Hybu Bwyd Cymru | 5.848 | (0.573) | 5.275 |
| Y Comisiwn Coedwigaeth | 22.238 | (0.638) | 21.600 |
| Cynllun Datblygu Gwledig (cynnydd) | 61.788 | 0.724 | 62.512 |
| Arall | 23.886 | 0.069 | 23.955 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **126.560** | **(2.838)** | **123.722** |

| | | | |
|---|---:|---:|---:|
| Cynllun Datblygu Gwledig (cyfalaf) | 15.372 | (3.771) | 11.601 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pysgodfeydd | 1.524 | (0.124) | 1.400 |
| Arall | (0.167) | 0 | (0.167) |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **16.729** | **(3.895)** | **12.834** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **143.289** | **(6.733)** | **136.556** |

20. Bu'n rhaid gostwng cyllidebau rhai llinellau:

Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes

21. Mae un llinell gyllidebol yn 2010/11 nad wyf wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth gyllidebol ar ei chyfer yn y blynyddoedd i ddod, sef y Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes. Rhaglen dair blynedd oedd hon i:

- asesu sefyllfa lles anifeiliaid anwes mewn ardaloedd awdurdodau lleol drwy sefydlu ffigurau llinell sylfaen ar gyfer y fasnach mewn anifeiliaid anwes;
- gwella cysylltiadau gwaith rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector;
- cynyddu dealltwriaeth y gymuned am fater lles;
- ymchwilio i bryderon lles penodol drwy brosiectau arbennig.

22. Mae'r cynllun wedi cyflawni'r amcanion hyn. Rwy'n parhau'n gwbl ymroddedig i weld Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol a sefydliadau lles y trydydd sector i ddatblygu ymhellach y manteision sy'n deillio o'r rhaglen.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

23. Mae'r cyllid ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gostwng o £22.2m yn 2010-11 i £20.7m yn 2013-14. Rydym eisoes wedi cytuno ar drefniant cyllido mwy hyblyg gyda'r Comisiwn Coedwigaeth fel yr argymhellwyd mewn adroddiad Gwerth am Arian gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2008, lle gallant ddwyn ymlaen 20% o'u hincwm gwerthu pren, hyd at uchafswm o £2.5m, o un flwyddyn ariannol i'r nesaf. Mae'r trefniant hwn yn cydnabod y ffaith eu bod yn agored i ansefydlogrwydd prisiau pren, ac yn golygu bod ganddynt fwy o hyblygrwydd i benderfynu pryd i werthu, yn hytrach na chael eu gyrru gan reolau llym mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rhagweld y gallant ddwyn cronfeydd o ryw £2.5m ymlaen i 2011/2, a fydd yn helpu i liniaru effaith y gostyngiadau yn y gyllideb.

24. Yn ogystal, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cychwyn ystod o fesurau effeithlon gan gynnwys rhoi gweithgareddau cynnal a chadw ar gontractau allanol, a gostwng nifer y staff a gyflogir ar ei weithgareddau craidd. Mae rhai o'r staff hyn yn cael eu hadleoli i reoli contractau ar gyfer datblygu ffermydd gwynt newydd a fydd, unwaith byddant yn weithredol, yn creu rhyw £20m y flwyddyn ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad.

25. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth hefyd mewn trafodaethau ar hyn o bryd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i adolygu trefniadau ar gyfer gweithredu polisïau amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad.

Hybu Bwyd Cymru

26. Mae'r gyllideb ar gyfer Hybu Bwyd Cymru yn gostwng o £5.8m yn 2011-12 i £5m yn 2013-14. Mae yna fenter fawr mewn perthynas â chaffael bwyd lleol, twristiaeth fwyd a chymorth i farchnata bwyd Cymru. Caiff rhaglenni gweithredu eu datblygu mewn perthynas â'r ysgogwyr allweddol a nodwyd yn y Strategaeth Fwyd: 'Bwyd *i Gymru, Bwyd* o *Gymru 2010-2020'.* Rydym wrthi'n trafod gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, ac â'r diwydiant, ynghylch gweithredu'r strategaeth hon, i sicrhau bod modd gwneud hynny o'r gyllideb sydd ar gael. Bydd y cynllun gweithredu yn creu partneriaeth gref gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau eu cyfraniadau ariannol i'r cynllun gweithredu.

Pysgodfeydd

27. Mae'r cyllidebau ar gyfer Pysgodfeydd (refeniw a chyfalaf) wedi'u gostwng. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol hyd yn hyn, a lefel ddisgwyliedig y galw am grantiau o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop. Mae'r cyllid domestig ar gyfer y grantiau hyn yn dod o MEG Materion Gwledig.

**Cyfalaf**

*28.* Mae'r gyllideb gyfalaf yn gostwng o £16.7m yn 2010/11 i £12.8m yn 2011/12. Mae modd ymdopi â'r sefyllfa. Rhagwelir tanwariant cyfalaf o ryw £3m yn 2010/11. Hyd yn hyn, bu'r ffigurau cyllidebol yn seiliedig ar y rhaniad hanesyddol mewn gwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig rhwng cyfalaf a refeniw. Ar hyn o bryd, mae llai o wariant yn cymhwyso fel cyfalaf, a bydd y duedd hon yn parhau i 2011/12 wrth i *Dir Gofal* ddod i ben. O ganlyniad, cytunodd Materion Gwledig y gellid gostwng y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2011/12 £500k ychwanegol yn 2011/12, yn gyfnewid am gyllideb ychwanegol o £500k yn 2013/14 pan fydd yr elfen wedi'i thargedu o *Glastir* yn weithredol, a fydd yn galw am gryn gyllid cyfalaf ar gyfer gwaith sylweddol er mwyn gallu cyflawni ym meysydd newid hinsawdd, rheoli carbon/dwr/pridd/cynefinoedd a bioamrywiaeth.

**Arbedion**

29. Yn ogystal â'r materion a nodwyd uchod, arbedwyd yr adnoddau canlynol neu maent yn arfaethedig.

30. Mae mesurau eisoes wedi'u cymryd i gyfyngu ar wariant ar iawndal TB, sy'n statudol ac yn ymateb i'r galw. Mae'r gweithdrefnau prisio wedi'u tynhau a'r arian a dderbynnir mewn cysylltiad â charcasau wedi cynyddu. Yn y dyfodol, bydd taliadau iawndal yn gysylltiedig â mesurau bioddiogelwch da ffermwyr. Mae'r mesurau sydd eisoes wedi'u cymryd wedi sicrhau arbedion o £1.1m y flwyddyn yn barod.

31. Mae Achos Busnes yn cael ei baratoi i gefnogi system electronig gynhwysfawr ar gyfer taliadau a wneir o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, gan gynnwys taliadau uniongyrchol i ffermwyr a thaliadau a wneir o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Bydd hyn yn galw am gryn fuddsoddiad i ddechrau er mwyn gosod y systemau TG gofynnol a bydd angen ailailinio patrwm cyfredol y gwasanaeth a ddarperir. Y bwriad yw i'r e-system newydd fynd yn fyw yn 2014, gan ei gweithredu'n llawn erbyn 2016.

32. Mae'r camau a gymerir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i arbed arian wedi'u nodi ym mharagraffau 23 i 25 uchod.

**Materion eraill**

Datganoli cyllidebau Iechyd Anifeiliaid

33. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n trafod gyda DEFRA ynghylch datganoli cyllidebau iechyd anifeiliaid. Gobeithir gweithredu hyn erbyn Ebrill 2011. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant wedi effeithio'n sylweddol ar eu cyllidebau. Mae diffyg eglurder yn parhau ynghylch manylion y cyllidebau a faint gaiff ei drosglwyddo. Mae osgoi perygl ariannol i Lywodraeth y Cynulliad ac anallu i frwydro yn erbyn clefyd ymhlith anifeiliaid yn ddau fater pwysig. Mae'r trafodaethau yn parhau ar y mater hwn.